Gwobr Mentora Cymheiriaid SAILS

# Gwybodaeth ar gyfer Cydlynwyr y Cynllun

## Pwyntiau Allweddol

1. Mae'r wobr ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n dilyn cyrsiau a addysgir a chyrsiau ymchwil.
2. Bydd mentoriaid yn gymwys i dderbyn y wobr bob blwyddyn y maent yn cymryd rhan mewn cynllun.
3. Gall mentor weithio tuag at gwblhau'r cynllun dros gyfnod o un flwyddyn neu ddwy flynedd; nodir blwyddyn y wobr ar yr Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (*HEAR*) e.e. Gwobr Mentora Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe 2018.
4. Bydd y math o gyswllt yn amrywio o gynllun i gynllun ond gallai gynnwys sesiynau grŵp, rhyngweithio ar gyfryngau cymdeithasol neu gymorth yn y labordy.
5. **Myfyrwyr Teitheb Haen 4:** I atal myfyrwyr ar Deitheb Haen 4 rhag mynd y tu hwnt i'w horiau gwaith, bydd angen iddynt adrodd eu horiau mentora i gydlynydd y cynllun yn wythnosol er mwyn iddynt gael eu cofnodi'n fewnol gan yr adran Adnoddau Dynol.

## Mae'n rhaid i Gydlynwyr y Cynllun:

1. **Gadw cofnod** o'r holl fentoriaid a'r menteion ar eu cynllun.
2. **Esbonio'r wobr mentora cymheiriaid** i'r mentoriaid gan gynnwys sut i wneud cais (gweler yr adran isod ar sut i gyflawni'r wobr) a rhoi'r gwaith papur angenrheidiol iddynt (gweler e-becyn cymorth mentora cymheiriaid *SAILS* neu Collaborate).
3. **Dilysu ac arwyddo** Cofnod Gweithgaredd a Chofnod o Sesiwn y mentor i gadarnhau bod negeseuon e-bost y menteion wedi'u derbyn oddi wrth myfyrwyr y maent yn cymryd rhan yn y cynllun.
4. Cysylltu â Phartner Busnes Adnoddau Dynol y Coleg/Ysgol i gytuno ar y broses ar gyfer **gwiriadau Hawl i Weithio** a monitro / adrodd oriau gwaith y mae ei angen ar gyfer rhai o'r myfyrwyr gan gynnwys y rheiny ar Deitheb Haen 4.

## Mae angen i fentoriaid:

1. Wedi cymryd rhan mewn sesiwn/sesiynau **hyfforddiant** mentoriaid cymheiriaid y Coleg.

2. Cyflawni isafswm o **chwe awr o fentora** (wyneb yn wyneb a/neu ar-lein). Gellir eu cyflawni dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd angen i fentoriaid dderbyn cadarnhad ar e-bost oddi wrth menteion i ddilysu'r sesiynau.
3. **Naill ai** cymryd rhan mewn o leiaf un digwyddiad sefydlu Coleg / Ysgol, diwrnod agored neu ddiwrnod ymweld **neu** helpu i hyrwyddo'r cynllun e.e. yn ystod digwyddiadau; ar gyfryngau cymdeithasol; trwy ddylunio a/neu dosbarthu taflenni/posteri; trwy recriwtio ffrind i ddod yn fentor; neu drwy ddiweddaru hysbysfwrdd y Coleg.
4. Rhoi **adborth** ar y cynllun e.e. trwy holiadur, sesiwn adborth a gynhelir gan gydlynydd, neu drwy roi adborth uniongyrchol i'r cydlynydd.
5. Cyfrannu at **ddatblygiad cynllun**. Gallai hyn gynnwys helpu gyda gwerthusiad, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau drwy adborth, mynychu digwyddiadau gwybodaeth a gynhelir i recriwtio/hyfforddi mentoriaid neu roi senarios ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol
6. Llunio **cyfnodolyn myfyriol** (350 i 400 o eiriau) ar y sgiliau a enillwyd a'r heriau a wynebwyd. Bydd angen i hyn ddangos bod y mentor wedi:
   - Datblygu ymwybyddiaeth o'r materion cyffredinol y mae myfyrwyr yn eu hwynebu pan fyddant yn cyrraedd Abertawe am y tro cyntaf ac yn ystod eu hamser yma. Gallai hyn fod trwy'r hyfforddiant, y rhyngweithio â menteion neu drwy eu profiadau personol eu hunain. Gellir derbyn gwybodaeth bellach am faterion yn e-becyn cymorth *SAILS*.
   - Gweithredu fel model rôl cadarnhaol i fenteion; wedi darparu gwybodaeth berthnasol ac ateb cwestiynau am fywyd fel myfyriwr.

## Gwneud cais am y Wobr

**Rhaid i fentoriaid gwblhau'r Cofnod o Weithgareddau a'r Cofnod o'r Sesiwn a rhaid i Gydlynwyr Cynllun gymeradwyo'r rhain cyn iddynt gael eu cyflwyno.**

Bydd angen i'r mentor gyflwyno copïau gwreiddiol o'u holl dystiolaeth (Cofnod Gweithgaredd wedi'i ddilysu, Cofnod o Sesiwn wedi'i ddilysu, Cyfnodolyn Myfyriol a Thaflen Flaen) ar ffurf papur ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd i:

SAILS, Ystafell 175/176 Adeilad Talbot
Campws Parc Singleton
Prifysgol Abertawe SA2 8PP

**Rhaid i fyfyrwyr y flwyddyn olaf gyflwyno eu tystiolaeth o fewn dau fis i ddiwedd eu rhaglen.**

Bydd y mentor yn derbyn cadarnhad drwy e-bost. Rydym yn argymell bod myfyrwyr yn cadw copi o'u gwaith cyn iddynt ei gyflwyno. Ar gwblhau'r wobr yn llwyddiannus bydd *SAILS* yn diweddaru Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch y mentor ac yn hysbysu cydlynydd y cynllun bod y wobr wedi'i dyfarnu.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English [v 1.3 14/08/2019]